Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 25.08.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# CYNNIG: Poteli 5 litr o gel diheintio dwylo am ddim

Mae gan Cyngor Gwynedd gyflenwad o ddiheintydd dwylo ar gael i fusnesau lleol am ddim ar sail y cyntaf i'r felin. Mae nifer o fusnesau lleol eisoes wedi cymryd mantais o'r cynnig yma. Os oes gennych ddiddordeb mewn derbyn cyflenwad, fydd yn cael ei ddosbarthu gan y Cyngor yn uniongyrchol i'ch busnes, cysylltwch â: PPEcymunedol@gwynedd.llyw.cymru gan nodi eich enw, rhif ffôn cyswllt, cyfeiriad ar gyfer danfon y nwyddau (gan gynnwys cod post), amseroedd o'r wythnos y bydd rhywun yn y lleoliad a'r nifer o foteli sydd eu hangen.

# DIGWYDDIAD: Syniadau Mawr Cymru Ar Daith!

Gall Syniadau Mawr Cymru helpu unigolion dan 25 oed sydd yn edrych i gychwyn busnes, yn chwilio am gyfleon newydd neu sydd â syniad busnes gwych. Yng Ngogledd Cymru, bydd Syniadau Mawr Cymru Ar Daith yn Hwb Arloesi Llandudno ar Gyfer Twristiaeth, Llandudno, LL30 2RH ar 14 Medi 2022 (9:15am-3:15pm) ac yn Tŷ Pawb, Wrecsam, LL13 8BB ar 20 Medi 2022 (9:15am-3:15pm). Bydd cyfle i glywed gan berchnogion busnes, i gymryd rhan mewn gweithdy rhyngweithiol am fod yn hunangyflogedig ac i gwrdd â phobl ifanc eraill sydd â diddordebau tebyg. I ddarganfod mwy, ewch i:

https://wales.business-events.org.uk/cy/digwyddiadau/syniadau-mawr-cymru-ar-daith/

# CYFLOGAETH: Prentisiaethau adeiladu yng Nghymru yn newid

O fis Medi 2022 ymlaen, bydd prentisiaethau adeiladu yng Nghymru yn wahanol a bydd gan gyflogwyr rôl ehangach o ran eu darparu. Mae CITB (Construction Industry Training Board) yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys City and Guilds a Gyrfa Cymru, i baratoi cyflogwyr yng Nghymru ar gyfer y newidiadau hyn a sicrhau bod ganddynt yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan CITB ar:

https://www.citb.co.uk/cy-gb/cyrsiau-a-chymwysterau/prentisiaethau-citb/cyflogi-prentis/canfod-prentis/cyflogi-prentis-yng-nghymru/

Mae mwy o wybodaeth hefyd ar gael ar:

https://www.skillsforwales.wales/cy

# TRETH: Bwletin Cyflogwyr CThEM Awst 2022

Mae rhifyn mis Awst y Bwletin Cyflogwyr yn rhoi holl ddiweddariadau ac arweiniad diweddaraf CThEM i gefnogi cyflogwyr, gweithwyr proffesiynol cyflogres ac asiantau, ac yn cynnwys diweddariadau ar PAYE, TAW a Gwneud Treth yn Ddigidol. I ddarllen y bwletin, ewch i:

https://www.gov.uk/government/publications/employer-bulletin-august-2022.cy

# ARIANNU: Cystadleuaeth benthyciadau arloesi economi'r dyfodol: rownd pump

Mae Innovate UK yn cynnig hyd at £25 miliwn mewn benthyciadau i fentrau micro, a bach a chanolig eu maint (BBaCh). Mae benthyciadau ar gyfer prosiectau ymchwil a datblygu cyfnod hwyr hynod arloesol sydd â'r potensial gorau ar gyfer y dyfodol. Y dyddiad cau i wneud cais yw 14 Medi 2022. Am fwy o wybodaeth, ac i ymgeisio, ewch i:

https://bit.ly/3dK9S0o

# GWOBRAU: The Great British Businesswoman Awards 2022

Mae The Great British Businesswoman Awards yn arddangos y modelau rolau, eiriolwyr a mentoriaid busnes, yn ogystal â'r merched ysbrydoledig sy'n arwain busnesau a'r rheiny sy'n esgyn i uchelfannau newydd! Mae'n rhad ac am ddim i wneud cais ar gyfer y gwobrau a'r dyddiad cau i wneud cais yw 28 Awst 2022. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.freshbusinessthinking.com/great-british-businesswoman-series/awards/about-the-awards

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru